**Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR YMDDIRIEDOLWYR ELUSENNAU a gynhaliwyd yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell trwy fideo-gynhadledda ddydd Dydd Llun, 6 Tachwedd 2023**

**PRESENNOL:** Cynghorydd Keith Evans (Cadeirydd), Cynghorwyr Endaf Edwards, Gwyn Wigley Evans, Rhodir Evans, Wyn Evans, Chris Jams a Caryl Roberts.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Ifan Davies a Raymond Evans

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Louise Harries a Harry Dimmack.

(11.30am - 11.55am)

**1 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Elaine Evans a Ceris Jones am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

**2 Datgelu buddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu**

Nododd y Cynghorwyr Rhodri Evans a Wyn Evans ddiddordeb personol mewn perthynas ag eitem 6.

**3 I ystyried cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2023 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion hyny**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2023 yn rhai cywir.

**Materion yn codi**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**4 I dderbyn adroddiad ar Adroddiadau Blynyddol ddrafft yr Ymddiriedolwyr 2022-2023**

Cyflwynodd Louise Harries yr adroddiad i'r Pwyllgor gan nodi ei bod yn ddyletswydd gyfreithiol o dan adran 162 o Ddeddf Elusennau 2011, i baratoi adroddiad blynyddol lle mae'r incwm yn fwy na £25,000. Er nad oedd yr un o incwm y pum elusen yn uwch na'r swm hwn, penderfynodd y Pwyllgor y llynedd gynhyrchu adroddiadau yn flynyddol. Cafodd adroddiadau drafft eu hystyried ar gyfer yr elusennau cofrestredig canlynol:

- Neuadd y Gofeb Rhyfel, Cei Newydd
- Llyfrgell ac Ystafell Ddarllen Cei Newydd
- Sefydliad Addysg Goffa COE
- Cronfa Addysg Ganolradd a Thechnegol Sir Aberteifi, ac
- Elusen Richard James Thomas

Mae canllawiau'r Comisiwn yn nodi y dylid gwneud datganiad byr sy'n datgelu os nad yw ymddiriedolwyr wedi darllen canllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus wrth arfer unrhyw bwerau neu ddyletswyddau y byddai'r canllawiau'n berthnasol iddynt. Mae yna rai sydd heb eu cwblhau,

felly argymhellwyd bod holl Aelodau'r Pwyllgor yn darllen ac yn cadarnhau eu bod wedi darllen y canllawiau cyn cyflwyno'r adroddiadau y flwyddyn nesaf.

Gofynnodd yr Aelodau bod prawf yswiriant yn cael ei ddarparu gan bob tenant yn flynyddol. Gofynnwyd hefyd i'r cyfeiriad at Ysgol Dyffryn Teifi yng Nghronfa Addysg Ganolradd a Thechnegol Sir Aberteifi gael ei ddiwygio i gyfeirio at Ysgol Bro Teifi.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** ar y canlynol:

1. cymeradwyo'r 5 adroddiad ymddiriedolwyr blynyddol drafft a nodir yn Atodiadau 1-5 o'r adroddiad hwn ac y bydd Cadeirydd y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusen yn llofnodi a dyddio copïau glân o'r rhain ar ran ymddiriedolwr yr elusen:
2. y bydd holl Aelodau'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusen yn darllen dwy ddogfen ganllawiau'r Comisiwn Elusennau (PB2 a PB3) a nodir yn Atodiad 6 yr adroddiad hwn ac yn cadarnhau yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor eu bod wedi darllen y canllawiau.

**5 I dderbyn adroddiad ar Lyfrgell ac Ystafell Ddarllen Cei Newydd - diweddariad**

Cyflwynodd Louise Harries yr adroddiad i'r Pwyllgor gan nodi bod datganiad i'r wasg wedi'i gyhoeddi ar 10 Gorffennaf 2023, a bod swyddogion hefyd wedi cysylltu'n uniongyrchol ag amrywiol sefydliadau a restrir yn yr adroddiad yn gofyn a fyddai gan unrhyw grŵp neu sefydliad ddiddordeb mewn ymgymryd â safle Llyfrgell ac Ystafell Ddarllen Cei Newydd at ddibenion addysgol.

Nodwyd fod pum mynegiant o ddiddordeb wedi dod i law, un ohonynt wedi cael ei dynnu'n ôl ers hynny, ac un a oedd yn ymwneud â busnes masnachol. Derbyniwyd datganiad pellach o ddiddordeb y tu hwnt i'r dyddiad cau a osodwyd, a oedd hefyd yn ymwneud â busnes masnachol.

Cadarnhaodd Louise Harries fod Swyddogion wrthi'n trafod y ceisiadau ar hyn o bryd gyda'r 3 datganiad o ddiddordeb sy'n weddill, o ran uno syniadau, ac y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno, yn gynnar y flwyddyn nesaf unwaith y bydd y cynigion yn glir ar gyfer penderfynu a yw'r Pwyllgor yn dymuno bwrw ymlaen.

**NODODD** Aelodau'r Pwyllgor yr adroddiad.

**6 I dderbyn diweddariad ar lafar ynghylch Is-Grŵp Tregaron**

Rhoddodd Louise Harries ddiweddariad llafar i'r Pwyllgor ar gyfarfodydd Is-Grŵp Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau Tregaron. Nododd fod yr is-grŵp wedi cyfarfod ym mis Medi i drafod cynigion ynghylch sut y dylid gwario'r arian. Mynychodd Rhydian Harries o Borth Cymorth Cynnar y cyfarfodydd i ddarparu gwybodaeth am y gwahanol fathau o gaeau astroturf ac agweddau cadarnhaol a negyddol yr arwynebau amrywiol hyn yn ogystal â chyllid a chostau grant posibl, ac i geisio dyheadau'r grŵp o ran lleoliad.

Darparwyd dogfen un dudalen i'r aelodau yn amlinellu'r uchod a phrisiau posibl.  Y cam nesaf fydd trefnu cyfarfod pellach o'r is-grŵp er mwyn gallu cyflwyno argymhelliad yn ôl i'r pwyllgor hwn.

**7 I dderbyn adroddiad ar newidiadau arfaethedig i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau**

Cyflwynodd Louise Harries yr adroddiad i'r Pwyllgor gan nodi bod y newidiadau arfaethedig yn cael eu hargymell i adlewyrchu ffaith bod Is-gadeiryddion y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau i bob pwrpas yn gwneud mwy nag arsylwi ar y cyfarfodydd.  Byddai'r gwelliannau yn caniatáu i holl Aelodau'r Pwyllgor gymryd rhan mewn cyfarfodydd fel Aelodau llawn.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

Bod Aelodau'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau:

1. yn cytuno mewn egwyddor bod Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusen yn cael eu diwygio er mwyn:
   a) galluogi Is-gadeiryddion i bleidleisio; a
   b) er mwyn:
      - dileu'r cyfeiriad at Is-gadeiryddion fel "arsylwyr";
      - dileu'r cyfeiriad at is-gadeiryddion gyda'r hawl i gyflwyno sylwadau;
      - dileu'r cyfeiriad at Is-gadeiryddion yn cael pleidlais yn absenoldeb y Cadeiryddion; a

   c) cadarnhau bod cworwm Pwyllgor Ymddiriedolwyr yr Elusen yn 3 (o'r holl aelodau sy'n pleidleisio).
2. argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r diwygiadau uchod i'r Cylch Gorchwyl yn y Cyfansoddiad sy'n ymwneud â statws Is-gadeiryddion.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau a gynhaliwyd ar Dydd Llun, 4 Mawrth 2024**

**Cadeirydd:________________**